Cynorthwywyr Arlwyo
YSGOL LLEWELYN, RHYL

Cyfeirnod y swydd: HECA00006D1VRE
Gwasanaeth: Cyfleusterau, Asedau a Thai
Lleoliad: Ysgol Llewelyn, Rhyl
Cyflog: Gradd 1 - £13.70-£13.92 yr awr
Oriau: 10 awr y wythnos, Adeg Tymor
Parhaol

Rydym yn credu mai ein hased pwysicaf yw ein staff a'n nod yw cefnogi eich datblygiad. Rydym yn rhoi cyfle i'n Cynorthwywyr Arlwyo ddatblygu gyrfa gyda ni, gan gynnig cyfle iddynt ennill cymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol sy'n cael eu hariannu'n llawn gan y cyngor, yn ein tîm wedi ennill gwobrau.

Nid yn unig byddwch yn gweithio mewn cegin modern, bydd gennych hefyd hawl i swm hael o wyliau, gostyngiadau gan gannoedd o adwerthwyr (gan gynnwys ein canolfannau hamdden) ledled y DU, arferion sy'n ystyriol o deuluoedd a chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, cyfleoedd i uwchsgilio a datblygu a llawer mwy.

Mae yna amrywiaeth o gyfleodd da ar gael o fewn timau'r Gwasanaeth Arlwyo, felly ffoniwch Tracey Rose ar 017824837781 am fwy o wybodaeth.

Penodir yn amodol ar Wiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a geirdaon boddhaol.

Os oes gennych ddiddordeb yn y swydd wag hon, gwnewch gais ar-lein trwy ein gwefan www.sirddinbych.gov.uk Am ddulliau eraill o wneud cais, cysylltwch â'r Adran Gwasanaethau Cwsmeriaid ar 01824 706100.

Rhaid i ymgeiswyr gwblhau ein ffurflen gais i gael ei ystyried. Mae'n ddrwg gennym nad ydym yn gallu ateb pob cais. Os nad ydych wedi derbyn ateb o fewn tair wythnos i'r dyddiad cau, dylech gymryd yn ganiatáol nad ydych wedi cyrraedd y rhestr fer am gyfweliad.

Dyddiad Cau: 14/12/2026

Catering Assistant
YSGOL LLEWELYN, RHYL

Job reference: HECA00006D1VRE
Service: Highways Facilities and Environmental Services
Location: Ysgol Llewelyn, Rhyl
Salary: Grade 1 - £13.70-£13.92 per hour
Hours: 10 hours per week, term time only
Permanent

We believe our most important asset is our staff and our aim is to support your development. We provide our Catering Assistants with the opportunity to develop a career with us, offering the chance to achieve nationally recognised qualifications which are fully funded by the council, in our award winning team.

Not only will you be working in newly built schools and modern kitchens, you will also be entitled to a generous amount of holidays, discounts at hundreds of retailers (including our leisure centres) across the UK, family friendly and work-life balance practices, opportunities to upskill and develop and much more.

There are a variety of rewarding opportunities available within the teams of the Catering Service, so please call Tracey Rose on 07824837781 and ask for more information.

Appointment subject to Disclosure & Barring Service Check and satisfactory references.

If you are interested in this vacancy, please apply on-line via the website www.denbighshire.gov.uk. For alternative methods of applying please contact Customer Services on 01824 706101.

Candidates must complete our application form to be considered. We regret that we are unable to reply to all applications. If you have not received a reply within three weeks of the closing date, you must assume that you have not been short listed for interview.

Closing Date: 14/12/2026

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn ymroddedig i Gyfle Cyfartal a'i Safonau Iaith Gymraeg. Rydym yn croesawu ceisiadau yn y Gymraeg. Sylwch na fydd unrhyw ffurflenni cais a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na ffurflenni cais a gyflwynwyd yn Saesneg.

Denbighshire County Council is committed to Equal Opportunities and its Welsh Language Standards. We welcome applications in the Welsh Language and application forms received in the Welsh Language will not be treated less favourably than an application form submitted in English.

CYNGOR SIR DDINBYCH SWYDD-DDISGRIFIAD

Teitl y Swydd:	**Cynorthwywyr Arlwyo**
Graddfa:	**1**
Gwasanaeth:	**Cyfleusterau, Asedau a Thai**
Maes Gwasanaeth:	**Gwasanaeth Arlwyo**
Yn atebol i:	**Tracey Rose**
Cyfeirnod y Swydd / Dyddiad cyhoeddi:	

Pwrpas y Swydd

Cefnogi a chynorthwyo'r Cogydd â Gofal / Uwch Gogydd gyda dyletswyddau arlwyo cyffredinol i alluogi darparu prydau bwyd ysgol.

Sicrhau bod y gegin, yr ystafell fwyta a'r storfa yn lân yn unol â chyfarwyddiadau, gan gynnwys offer.

Prif Gyfrifoldebau

- Cefnogi'r Cogydd â Gofal / Uwch Gogydd gyda dyletswyddau arlwyo cyffredinol i alluogi darparu prydau bwyd ysgol.
- Cynorthwyo gyda gosod byrddau a chlirio dodrefn.
- Sicrhau bod holl daclau, crochenwaith ac offer wedi eu golchi'n drwyadl.
- Cynorthwyo gyda gweini prydau bwyd i ddisgyblion.
- Cynnal glendid y gegin, ystafell fwyta a storfeydd yn unol â chyfarwyddiadau.
- Ymateb i ymholiadau cwsmer e.e. Pryd y Dydd, yr hyn sydd mewn bwyd ac ati ac argymell dewisiadau priodol.
- Dilyn cyfarwyddiadau rheoli eraill sy'n rhesymol.

Adnoddau / Offer / Deunyddiau

Dim

Goruchwylio / Rheoli Pobl

Dim

Gwybodaeth, Sgiliau, Hyfforddiant a Phrofiad
• Mae brwdfrydedd a gallu yn bwysicach na chyflawniad addysgol • Gallu glanhau a chadw mannau gweithio'n daclus, gan ymfalchïo yn eich gwaith • Gallu gweithio fel rhan o dîm • Prydlon a dibynadwy
Amodau Gwaith Arbennig
Dim
Archwiliadau Cyflogaeth / Gofynion Penodol
Gwiriad GDG 2 eirda boddhaol Cliriad meddygol
Gweledigaeth / Cyd-destun
Mae ein Cynorthwywyr Arlwyo yn rhan hanfodol o'r gwaith o redeg ceginau'r sir, a byddwn yn cefnogi ac yn annog deilydd y swydd i ddatblygu eu gyrfa yn y maes hwn.

CYNGOR SIR DDINBYCH MANYLION AM YR UNIGOLYN

Mae'r Manylion yn nodi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad a ystyrir yn hanfodol er mwyn ymgymryd â dyletswyddau'r swydd yn effeithiol. Caiff ei defnyddio wrth lunio rhestr fer ac ar gyfer y broses o gyfweld am y swydd hon. Dylech ddangos ar eich ffurflen gais sut rydych yn bodloni'r meini prawf hyn. Byddwch ddim ond yn cael eich cynnwys ar y rhestr fer os ydych yn bodloni pob un o'r meini prawf hanfodol (â'r meini prawf dymunol lle bo'n berthnasol).

Teitl y Swydd:	**Cynorthwywyr Arlwyo**
Gwasanaeth:	**Cyfleusterau, Asedau a Thai**
Graddfa:	**1**

MEINI PRAWF	**HANFODOL**	**DYMUNOL**	**DULL ASESU** Ffurflen Gais / Cyfweliad /Cyflwyniad / Geirda ac ati
1. ADDYSG A CHYMWYSTERAU	Mae brwdfrydedd a gallu yn bwysicach na llwyddiannau academaidd	Tystysgrif mewn Glendid Bwyd Sylfaenol – ddim yn hanfodol gan y rhoddir hyfforddiant	Ffurflen gais Cyfweliad Tystysgrif
2. PROFIAD PERTHNASOL		Mae profiad o weithio mewn cegin yn ddymunol ond rhoddir hyfforddiant llawn	Ffurflen gais Cyfweliad
3. GWYBODAETH A SGILIAU CYSYLLTIEDIG Â'R SWYDD	Gallu glanhau a chadw mannau gweithio'n daclus, gan ymfalchïo yn eich gwaith	Rhoddir hyfforddiant llawn	Ffurflen gais Cyfweliad
4. NODWEDDION PERSONOL	Gallu gweithio fel rhan o dîm Prydlon a dibynadwy		Ffurflen gais Cyfweliad
5. GOFYNION ERAILL	Bod ag empathi tuag at y Gymraeg a diwylliant Cymru	Siaradwr Cymraeg rhugl	Ffurflen gais Cyfweliad

DENBIGHSHIRE COUNTY COUNCIL JOB DESCRIPTION

Job Title:	**Catering Assistant**
Grade:	**1**
Service:	**Facilities, Assets and Housing**
Service Area:	**Catering Service**
Responsible to:	**Tracey Rose**
Job ID Number / Date Issued:	

Job Purpose

To support and assist the Cook in Charge/Senior Cook with general catering duties to enable the provision of school meals.

Maintain cleanliness of the kitchen, dining room and storeroom as and when directed; including equipment.

Principal Accountabilities and Responsibilities

- Support the Cook in Charge/Senior Cook with general catering duties to enable the efficient provision of school meals.
- Assist with laying tables and clearing away furniture.
- Ensure all utensils; crockery and equipment are thoroughly washed.
- Assist with serving of meals to pupils.
- Maintain cleanliness of the kitchen, dining room and storerooms as directed.
- To respond to customer enquiries e.g. Meal of the Day, food content etc. and recommend appropriate meal choices.
- Undertake other reasonable management instructions

Resources/Equipment/Material

None

Supervision/Management of People

None

Knowledge, Skills, Training and Experience

- Enthusiasm and ability is more important than academic achievement
- Able to clean and tidy, taking pride in their work
- Ability to work as part of a team.
- Punctual and reliable

Special Working Conditions

None

Employment Checks/ Specific Requirements

DBS Check
2 Satisfactory references
Medical clearance

Vision/Context

Our Catering Assistants are integral to the running of the kitchens throughout the county, and we aim to support and encourage the post holder in developing their career in this field.

DENBIGHSHIRE COUNTY COUNCIL PERSON SPECIFICATION

The Person Specification sets out the skills, knowledge and experience that are considered to be necessary to carry out the duties of the post effectively. It will be used in the short-listing and interview process for this post. You should demonstrate on your application form how you meet these criteria as you will only be shortlisted if you meet all of the essential criteria (and desirable criteria where applicable).

Post Title:	**Catering Assistant**
Service	**Catering Service**
Grade:	**1**

CRITERIA	**ESSENTIAL**	**DESIRABLE**	**METHOD OF ASSESSMENT** Application Form / Interview / Presentation / References etc
1. EDUCATION & QUALIFICATIONS	Enthusiasm and ability is more important than academic achievement	Certificate in Basic Food Hygiene – not essential as full training is provided	Application form Interview Certificate
2. RELEVANT EXPERIENCE		Experience working in kitchens is desirable but full training is provided	Application form Interview
3. JOB RELATED KNOWLEDGE & SKILLS	Able to clean and tidy, taking pride in their work	Full training provided	Application form Interview
4. PERSONAL QUALITIES	Ability to work as part of a team. Punctual and reliable		Application form Interview
5. OTHER REQUIREMENTS	Empathy with the Welsh Language and Culture	Fluent Welsh speaker	Application form Interview